

ELLIS, THOMAS (1711/12 - 1792), clericigwr

Enw: Thomas Ellis
Dyddiad geni: 1711/12
Dyddiad marw: 1792
Rhiant: Edward Ellis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clericigwr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yng Ngallt-melyd, Sir y Fflint, yn fab i Edward Ellis. Ymaelododd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, 5 Chwefror 1727-8, yn 16 oed; graddiodd yn 1731, ac yn B.D. yn 1741 (Foster, *Alumni Oxonienses*), bu'n gymrawd o'r coleg 1731-61 (Hardy, Jesus College), ac ymhellach ymlaen efe oedd y cymrawd hynaf. Yn 1737 cafodd gan ei goleg guradiaeth (neu 'lectureship') Caerdybi. Yno bu'n weinidog hynod weithgar, llym a Phiwritanaidd braidd; cefnogai ysgolion [Griffith Jones](#) yn selog, a gwelir llawer llythyr ganddo yn y *Welch Piety*, gan gynnwys condemniad pendant o lyfr [John Evans](#), Eglwys Cymyn; gellid meddwl ei fod yn fath o arolygydd ar ysgolion cylchynnol Môn, ac yr oedd yn un o'r hanner dwsin o glerigwyr yng Nghymru a benodwyd gan [Griffith Jones](#) i dderbyn cyfraniadau at y mudiad. Ymboenai'n fawr i ddileu'r cyswllt, ym marn y wlad, rhwng yr ysgolion a Methodistiaeth, neu hyd yn oed Ymneilltuaeth. Yn 1746 (? ail argraffiad yn 1747; gweler *Morris Letters*, i, 120, a manau eraill), cyhoeddodd *Byr Grynhoed o'r Grefydd Cristionogol*, yn erbyn sism; a phan oedd John Wesley yng Nghaerdybi ym Mawrth 1748 (*Wesley's Journal*, 26-7 Mawrth), mynnodd Ellis ganddo sgrifennu rhywbeth i gynghori'r Methodistiaid i beidio â chefnu ar yr Eglwys - eisteddodd Wesley i lawr (yn ei eiriau ef ei hunan) ar unwaith, a sgrifennu *A Word to a Methodist*; troswyd hwnnw yn Gymraeg gan Ellis, a'i argraffu yn Nulyn, 1748, dan y teitl *Gair i'r Methodist*. Yr oedd Ellis hefyd yn un o hyrwyddwyr argraffiad y S.P.C.K. yn 1746 o'r *Beibl Cymraeg*, a thybir mai efe a anogodd roi'r gwaith o'i ddwyn drwy'r wasg i [Richard Morris](#). Yr oedd yn wir yn gyfaill mawr i'r [Morysiaid](#) (yn fwyaf arbennig i'w gymydog [William Morris](#)), ac y mae ugeiniau o gyfeiriadau ato yn eu llythyrau. Ar gynnig [William Morris](#), etholwyd ef yn aelod gohebol o Gymdeithas y Cymmrodorion; cymerai ddiddordeb mawr yn llenyddiaeth Cymru, a bu'n garedig iawn wrth [Oronwy Owen](#). Yng Ngorffennaf 1759 rhoddwyd iddo fywoliaeth orau Coleg Iesu, sef Nutfield yn Surrey. Bellach, gallai fforddio ymado â'i gymrodoriaeth golegol (nid oedd ei gyflog yng Nghaerdybi ond £50), a phriodi (1762); cafodd ddau o blant. Bu farw yn Nutfield, 23 Chwefror 1792, yn 80 oed.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Lucy Williams yn *Trafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr a Naturiaethwyr Môn*, 1947, 49-50

The Letters of Lewis, Richard, William, and John Morris, of Anglesey, (Morrisiaid Môn) 1728-1765 (1907-9) - mynegai Hugh Owen, 1942

The Letters of Goronwy Owen (1723-69) (Cardiff 1924) (gol. J. H. Davies), 1924, mynegai

D. Ambrose Jones, *Griffith Jones Llanddowror* (Wrecsam 1923), 1923, mynegai

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [61399186](#)

Wikidata: [Q7789332](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

